



Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Diwygio Cod Ymarfer Cymru ar
Ddeddf Iechyd Meddwl 1983

Dyddiad cyhoeddi: **Mehefin 2016**

Trosolwg

Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi, cyhoeddi ac, o dro i dro, adolygu eu Codau Ymarfer presennol, trwy rinwedd adran 118 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (y Ddeddf). Trwy wneud hynny, mae'n ofynnol iddynt ymgynghori â chyrff y mae'n ymddangos iddynt hwy eu bod yn berthnasol.

Roedd yr ymgynghoriad hwn yn rhan o'r broses honno. Gofynnodd am ymatebion i gwestiynau penodol er mwyn helpu i hysbysu'r gwaith o ddrafftio Cod Ymarfer Cymru ar Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (y Cod) diwygiedig.

Mae'r ddogfen hon yn cynnig crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd gan Llywodraeth Cymru i'r diwygiad i'r Cod a gyhoeddwyd i ymgynghori arno ar 4 Medi 2015. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 27 Tachwedd 2015.

Rhagor o Wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Y Rheolwr Deddfwriaeth
Yr Is-adran Iechyd Meddwl a Grwpiau Agored i Niwed
Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: MentalHealthandVulnerableGroups@wales.gsi.gov.uk

Gellir gweld y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru:
<http://gov.wales/consultations/healthsocialcare/?skip=1&lang=cy>

Gellir hefyd cael gafael ar gopiâu o'r adroddiad hwn mewn fformatau hygyrch gan gynnwys Braille, print bras, sain neu gopi caled ar gais.

Cynnwys

- 1. Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad**
- 2. Cyflwyniad**
- 3. Ymgysylltu â rhanddeiliaid**
- 4. Manylion yr ymatebwyr**
- 5. Dadansoddiad o'r ymatebion fesul cwestiwn**
- 6. Dadansoddiad o'r ymatebion fesul Pennod**
- 7. Atodiad 1- rhagor o fanylion am yr ymatebwyr**

1. Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Derbyniodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o 51 o ymatebion i'r cwestiynau'n ymwneud â Diwygio Cod Ymarfer Cymru ar Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (y Cod).

O'r ymatebion hyn, derbyniwyd 10 (19.6%) gan ddefnyddio'r templed ymateb ar-lein; defnyddiodd 21 (41.2%) y profforma e-bost; argraffodd dau (3.9%) y profforma a'i anfon atom fel copi caled; ac anfonodd 18 (35.3%) eu sylwadau mewn e-bost heb ddefnyddio'r profforma. Derbyniwyd dwy ran o dair o'r ymatebion mewn fformat a ddyluniwyd gan Lywodraeth Cymru.

Yn gyffredinol, roedd consensws eang (yn amrywio o 55.9% i 90.6%) bod y Cod, fel y'i drafftwyd, yn esbonio'n eglur y gofynion a nodir ym mhob cwestiwn. Ar ôl ychwanegu'r rhai a oedd o'r farn bod y Cod yn esbonio'r gofynion yn rhannol, cynyddodd yr ystod hon i 88.3% i 100%. Roedd rhwng 0% ac 11.7% yn anghytuno bod y Cod fel y'i drafftwyd yn esbonio'r gofynion a nodir yn y cwestiynau.

Gwnaed diwygiadau i'r Cod i ymgorffori safbwyntiau rhanddeiliaid pryd bynnag y bo hynny'n bosibl ac, yn benodol, i gryfhau ymhellach swyddogaeth Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 (y Mesur). Ychwanegwyd dau atodiad hefyd, un yn ymwneud â hyfforddi staff a'r llall yn ymwneud â monitro Deddf Iechyd Meddwl 1983 (y Ddeddf) a gweithrediad y Cod.

Mae dadansoddiad fesul cwestiwn a phennod unigol wedi ei gynnwys yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

2. Cyflwyniad

Mae adran 118 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi eu Codau Ymarfer, a'u hadolygu'n gyfnodol.

Cymerodd y Cod drafft i ystyriaeth y newidiadau i ddeddfwriaeth berthnasol ers ysgrifennu'r Cod blaenorol. Yn benodol:

- y gofynion yn y Mesur o ran cynllunio gofal a thriniaeth a'r ddarpariaeth estynedig o eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol, a'r
- berthynas rhwng y Ddeddf, Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Yn y Cod drafft, roedd pwyslais cryfach ar:

- gynnwys cleifion a, phan yn briodol, eu teuluoedd a'u gofalwyr, ym mhob agwedd ar asesiadau a thriniaeth
- deall egwyddorion Deddf Galluedd Meddyliol 2005
- cynnwys eiriolwyr iechyd meddwl annibynnol, a'r
- defnydd o drafnidiaeth briodol ar gyfer cleifion sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf er mwyn sicrhau eu hurddas a'u diogelwch cyn belled ag y bo'n ymarferol.

Roedd 2 fater arall o gyfarwyddyd arfaethedig yn y Cod drafft nad ydynt yn y cod presennol, ac roedd y rhain yn ymwneud ag adran 136 a pha bryd y dylai cynllunio gofal a thriniaeth cleifion mewnol ddechrau.

3. Ymgysylltu â rhanddeiliaid


Paratowyd y Cod drafft mewn cydweithrediad ag aelodau grŵp llywio y Cod Ymarfer ar Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 Llywodraeth Cymru. Roedd y grŵp yn cynrychioli rhanddeiliaid iechyd meddwl yng Nghymru ac yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, sefydliadau trydydd sector a gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol.

Cynhaliwyd gweithdai unigol gydag eiriolwyr iechyd meddwl annibynnol, rheolwyr a gweinyddwyr y Ddeddf Iechyd Meddwl, gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy, gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol eraill gan gynnwys clinigwyr cymeradwy a nyrsys iechyd meddwl. Cynhaliwyd cyfarfodydd anffurfiol ar wardiau cleifion mewnol hefyd, ar gyfer; plant a phobl ifanc, oedolion, unigolion hŷn, y rheini ag anabledau dysgu a chleifion fforensig.

Cynhaliwyd cyfarfodydd hefyd â Chomisiynydd y Gymraeg a swyddfeydd y Comisiynydd Plant a'r Comisiynydd Pobl Hŷn.

Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori wedi'u hwyluso ledled Cymru. Cynorthwywyd cleifion a gofalwyr i fynychu gan sefydliadau trydydd sector a chynhaliwyd digwyddiad penodol gyda'r fforwm defnyddwyr gwasanaethau gofal iechyd a gofalwyr. Daeth yr ymgynghoriad 12 wythnos ffurfiol i ben ar 27 Tachwedd 2015.

4. Ymatebwyr



Key to above graphic:

Percentage of responses by type – Canran yr ymatebion fesul math

AMHP - Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy

Family Member or Carer - Aelod o'r Teulu neu Ofalwr

Legal - Cyfreithiol

Member of the Public - Aelod o'r Cyhoedd

NHS Staff - Staff y GIG

Other - Arall

Patient or Former Patient - Claf neu Gyn-glaf

Professional Body - Corff Proffesiynol

Social Worker - Gweithiwr Cymdeithasol

Third Sector - Trydydd Sector

Ymatebwyr	Nifer yr Ymatebion
Gweithiwr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy	7
Aelod o'r teulu neu ofalwr	2
Cyfreithiol	1
Aelod o'r cyhoedd	1
Staff y GIG	11
Arall	10
Gweithiwr proffesiynol arall	4
Claf neu gyn-glaf	1
Corff proffesiynol	7
Gweithiwr cymdeithasol	3
Sefydliad trydydd sector	4

5. Dadansoddiad o'r ymatebion fesul cwestiwn

Cwestiwn 1

A yw'r Cod, fel y'i drafftwyd, yn esbonio'n eglur y dylai cleifion gael eu trin ag urddas a pharch ac y dylid gwrandao ar eu safbwyntiau a'u gwerthfawrogi a'u cymryd i ystyriaeth?

O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn (34 = 66.6%)

	Ydy	Yn rhannol	Nac ydy
Nifer	29	5	0
Canran	85.3%	14.7%	0%



■ Yes ■ Partly ■ No

Crynodeb

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno bod y Cod yn esbonio'n eglur y dylai cleifion gael eu trin ag urddas a pharch ac y dylid gwrandao ar eu safbwyntiau a'u gwerthfawrogi a'u cymryd i ystyriaeth. Codwyd sawl awgrym, sylw a chwestiwn ychwanegol:

- pa un a oedd yn ddymunol cynnwys mwy o gyfeiriadau at barchu anghenion siaradwyr Cymraeg wrth ofyn am wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

- sut y bydd staff yn sicrhau bod pobl yn cael eu trin ag urddas a pharch? Pa hyfforddiant a roddir i staff er mwyn sicrhau hyn?
- pa un a fyddai senarios yn ddefnyddiol
- nid yw'r Cod yn dweud y dylid trin cleifion â pharch mewn gwirionedd a
- dylid cofnodi safbwyntiau hefyd

Ymateb y Llywodraeth

Diwygiwyd y Cod i:

- bwysleisio y dylid trin cleifion â pharch,
- nodi y dylid cofnodi safbwyntiau cleifion,
- cynnwys adran newydd ar hyfforddiant.

Yn unol â'r Cod blaenorol, nid oes senarios wedi'u cynnwys yn y Cod diwygiedig. Disgwylir y bydd pob sefydliad a'i staff yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a Mesur y Gymraeg.

Cwestiwn 2

A yw'r Cod, fel y'i drafftwyd, yn esbonio'n eglur y dylid trin teuluoedd a/neu ofalwyr cleifion ag urddas a pharch ac y dylid gwrando ar eu safbwyntiau a'u gwerthfawrogi a'u cymryd i ystyriaeth, er enghraifft, yn y cynllun gofal a thriniaeth?

O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn (34 = 66.6%)

	Ydy	Yn rhannol	Nac ydy
Nifer	24	9	1
Canran	70.6%	26.5%	2.9%



■ Yes ■ Partly ■ No

Crynodeb

Roedd consensws bod yr angen i gleifion gael eu trin ag urddas a pharch ac y dylid gwrando ar eu safbwyntiau a'u gwerthfawrogi a'u cymryd i ystyriaeth wedi'i esbonio'n eglur drwy'r Cod. Gwnaed sawl awgrym ychwanegol:

- dylai'r Cod ddiffinio'n eglur pwy ddylai'r sawl sy'n perthyn agosaf fod, e.e. pa un a yw'n 'berthynas agosaf' ai peidio.
- ar gyfer achosion sy'n cynnwys plant neu bobl ifanc sy'n iau na 18 oed, mae'n rhaid ymgynghori ag aelodau'r teulu neu ofalwyr bob amser.
- mae angen rhoi mwy o bwyslais ar eu rhan yn y broses o gynllunio gofal a thriniaeth.
- mae'r angen am gyfrinachedd cleifion a gofalwyr yn cael ei barchu.
- dylid cofnodi safbwyntiau hefyd.

Ymateb y Llywodraeth

Diwygiwyd y Cod diwygiedig i:

- roi mwy o bwyslais ar y pwysigrwydd bod gofalwyr, teuluoedd a ffrindiau yn cymryd rhan lawn yn y broses o gynllunio gofal a thriniaeth a'r canllawiau a roddir yn y Cod Ymarfer ar gyfer Rhan 2 a 3 o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010
- rhoi mwy o eglurder ar faterion yn ymwneud â chyfrinachedd
- nodi y dylai safbwyntiau teulu/gofalwr gael eu cofnodi
- egluro'r gwahaniaeth rhwng y sawl sy'n perthyn agosaf a'r berthynas agosaf

Ni ellir cael unrhyw ganllawiau cyffredinol bod yn rhaid ymgynghori ag aelodau teulu plant, bydd hyn yn dibynnu ar amgylchiadau unigol y plentyn.

Cwestiwn 3

A yw'r Cod, fel y'i drafftwyd, yn esbonio'n eglur y dylai cleifion gael eu trin mewn amgylchedd diogel a chefnogol, ac un sy'n briodol i'w hanghenion penodol?

O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn (34 = 66.6%)

	Ydy	Yn rhannol	Nac ydy
Nifer	23	11	0
Canran	67.6%	32.4%	0%



■ Yes ■ Partly ■ No

Crynodeb

Roedd cytundeb eang bod y Cod yn esbonio'n eglur y dylai cleifion gael eu trin mewn amgylchedd diogel a chefnogol ac un sy'n briodol i'w hanghenion penodol. Codwyd tri mater penodol:

- cyflwr presennol ystâd y GIG, gan gynnwys y defnydd dilynol o leoliadau y tu allan i'r ardal
- hyfforddiant staff
- sut y gellir sicrhau bod cyn lleied o arferion cyfyngol â phosibl

Ymateb y Llywodraeth:

Er na all y Cod bennu sut y mae byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen i fodloni gofynion y Ddeddf a'r Cod hwn; mae'r Cod wedi'i ddiwygio i gynnwys dwy adran ychwanegol i gefnogi'r gwaith o fonitro ei ofynion ac anghenion hyfforddiant staff.

Cwestiwn 4

A yw'r Cod, fel y'i drafftwyd, yn esbonio'n eglur y dylai cleifion gael eu cludo i'r ysbyty ac oddi yno yn y ffordd fwyaf diogel a phriodol i ddiwallu eu hanghenion?

O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn (34 = 66.6%)



■ Yes ■ Partly ■ No

	Ydy	Yn rhannol	Nac ydy
Nifer	24	8	2
Canran	70.6%	23.5%	5.9%

Crynodeb

Roedd mwyafrif yr ymgylgoreion o'r farn bod y Cod yn esbonio'n eglur y dylai cleifion gael eu cludo i'r ysbyty ac oddi yno yn y ffordd fwyaf diogel a phriodol i ddiwallu eu hanghenion. Fodd bynnag, codwyd pryderon am gadernid trefniadau lleol ac nad yw'r Cod yn ganllaw statudol ar gyfer gwasanaethau'r heddlu na'r ambiwlans.

Ymateb y Llywodraeth

Ychwanegwyd dwy adran newydd at y Cod, un yn ymwneud â monitro a'r llall yn ymwneud â hyfforddiant. Rhagwelir y bydd y rhain yn cefnogi cludiant priodol i gleifion. Mae'r Cod hefyd yn cyfeirio at y Concordat Gofal Iechyd Meddwl mewn Argyfwng sydd wedi ei gyhoeddi erbyn hyn a bydd yr ymrwymadau ar y cyd a wnaed yn cefnogi'r nodau hyn.

Er nad yw'n ganllaw statudol i wasanaethau'r heddlu a'r ambiwlans, diwygiwyd y Cod ymhellach hefyd i adlewyrchu y byddai o fudd i'r gwasanaethau hynny wrth gyflawni eu dyletswyddau ac argymhellir y dylent dderbyn hyfforddiant ar y Cod er mwyn sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'i ofynion.

Cwestiwn 5

A yw'r Cod, fel y'i drafftwyd, yn esbonio'n eglur y dylid rhoi'r wybodaeth i gleifion, eu teuluoedd a'u gofalmwyr sy'n diwallu eu hanghenion a'u bod yn cael eu hysbysu am eu hawliau?

O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn (32 = 62.7%)

	Ydy	Yn rhannol	Nac ydy
Nifer	26	6	0
Canran	81.3%	18.7%	0%



■ Yes ■ Partly ■ No

Crynodeb

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno bod y Cod yn esbonio'n eglur y dylid rhoi'r wybodaeth i gleifion, eu teuluoedd a'u gofalmwyr sy'n diwallu eu hanghenion a'u bod yn cael eu hysbysu am eu hawliau. Dyma'r awgrymiadau a wnaed ar gyfer gwelliannau:

- dylai'r Cod bwysleisio hyn fwy yn yr egwyddorion arweiniol, gan mai'r egwyddorion hyn fydd y cyflwyniad, ac at y rhain y cyfeirir fwyaf wrth ddarllen.
- gellid cryfhau'r Cod ymhellach pe bai'n cyfeirio at wahanol fathau a ffynonellau o wybodaeth.

Ymateb y Llywodraeth

Cryfhawyd yr egwyddorion arweiniol i bwysleisio'r pwynt hwn. Mae cyfeiriadau at ffynonellau gwybodaeth eraill wedi eu cynnwys mewn rhai adrannau ond cyfeirir at arfer da cyfredol mewn adrannau eraill, i sicrhau bod ffynonellau gwybodaeth yn gyfredol.

Cwestiwn 6

A yw'r Cod, fel y'i drafftwyd, yn esbonio'n eglur y dylid cyfathrebu â chleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr mewn ffordd sy'n diwallu eu hanghenion orau?

O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn (32 = 62.7%)

	Ydy	Yn rhannol	Nac ydy
Nifer	28	4	0
Canran	87.5%	12.5%	0%



■ Yes ■ Partly ■ No

Crynodeb

Roedd mwyafrif yr ymgynghoreion yn cytuno bod y Cod yn esbonio'n eglur y dylid cyfathrebu â chleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr mewn ffordd sy'n diwallu eu hanghenion orau. Codwyd dau fater penodol:

- Mae'n gwneud cryn dipyn i ddiwallu hyn ond, unwaith eto, mae teuluoedd yn aml yn teimlo nad ydynt yn cael eu cynnwys os yw'r unigolyn yn datgan na ddylent gael eu cynnwys. Fodd bynnag, nid yw hyn yn eu hatal rhag rhannu gwybodaeth, mae hyn weithiau'n eu cynorthwyo i ymdrin â sefyllfaoedd anodd.
- Nid yw'n eglur pa gamau y mae'n rhaid eu cymryd os bydd teulu claf sydd â diffyg galluedd yn anghytuno â'r eiriolwr, na beth y dylid ei wneud os bydd y teulu'n gwrthod cyfathrebu ac nad yw'r galluedd meddylion gan y claf.

Ymateb y Llywodraeth


Diwygiwyd y Cod i'w gwneud yn eglur pa wybodaeth y gellir ei rhannu â theuluoedd pan fydd cleifion yn gwrthwynebu a pha gamau y dylid eu cymryd os oes anghytuno rhwng eiriolwr dros y rheini sydd â diffyg galluedd ac aelodau'r teulu.

Cwestiwn 7

A yw'r Cod, fel y'i drafftiiwyd, yn esbonio'n eglur y dylai cleifion gael eu trin yn deg ac yn gyfartal?

O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn (34 = 66.6%)

	Ydy	Yn rhannol	Nac ydy
Nifer	30	3	1
Canran	88.2%	8.8%	2.9%



■ Yes ■ Partly ■ No

Crynodeb

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno bod y Cod yn esbonio'n eglur y dylai cleifion gael eu trin yn deg ac yn gyfartal. Roedd sylwadau ac awgrymiadau ar gyfer diwygiadau pellach i'r Cod yn cynnwys:

- mae staff angen hyfforddiant helaeth mewn Ymwybyddiaeth o Amrywiaeth Ddiwylliannol ymhlith ffrydiau amrywiaeth eraill
- hefyd, “awgrymaf y dylai'r ymadrodd “cynghrair therapiwtig” fod yn “perthynas therapiwtig” a chyfeirio at ymadrodd y Cod MHM, “gweithio mewn partneriaeth tuag at wellhad”. Mae'n bosibl y gellid camddehongli'r ymadrodd “cynghrair therapiwtig” fel “cynghrair” rhwng staff yn unig!”
- “ydy, mae'r cod yn esbonio hyn, ond byddai'n ddefnyddiol pe bai wedi'i nodi yn rhywle bod hyn yn cynnwys cleifion sydd â hanes o gamddefnyddio sylweddau neu/a diagnosis o anhwylder personoliaeth. Er bod hyn yn cael ei grybwyll yn y Cod, gallai fod yn fwy eglur.”
- Byddai pennod 21 yn y Cod Ymarfer yn elwa ar ddiwygiad sylweddol. Byddai datganiad cyffredinol ar yr angen i ystyried natur a difrifoldeb o ran anhwylderau personoliaeth yn ddefnyddiol gan y gallai hyn hysbysu clinigwyr sy'n meddwl am risg a thriniaeth. Rydym o'r farn y dylai fod canllaw ar wahân ar y defnydd o'r Ddeddf gydag unigolion ag anhwylder personoliaeth â risgiau cysylltiedig iddynt eu hunain, yn hytrach na chanllaw ar y defnydd o'r Ddeddf gydag unigolion ag anhwylder personoliaeth â risgiau cysylltiedig i eraill a phwy sy'n drosoddwyr.

Ymateb y Llywodraeth

Ychwanegwyd adran newydd ar hyfforddiant at y Cod ac mae hon yn cynnwys amrywiaeth. Newidiwyd y term cynghrair therapiwtig.

Bwriadwyd i'r bennod newydd ar anhwylder personoliaeth hybu triniaeth deg i bobl â diagnosis o anhwylder personoliaeth a diwygiwyd y Cod i adlewyrchu, yn benodol, na ddylid ei ystyried yn ddiagnosis o allgau.


Ni fwriedir i'r Cod ddisodli hyfforddiant ar y cymhlethdod sy'n gysylltiedig â gweithio gyda gwahanol fathau o anhwylder meddwl na darparu canllaw arfer da.

Cwestiwn 8

A yw'r Cod, fel y'i drafftwyd, yn esbonio'n eglur y gall cleifion yn yr ysbyty gael cysylltiad â theulu a ffrindiau, y gallant gyfathrebu â hwy yn breifat, a phan yn briodol, gysylltu â'r bobl a ddewisant trwy wahanol ffyrdd, heb amharu ar breifatrwydd, diogelwch ac urddas eu hunain ac eraill?

O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn (32 = 62.7%)

	Ydy	Yn rhannol	Nac ydy
Nifer	27	5	0
Canran	84.4%	15.6%	0%



Crynodeb

Roedd mwyafrif yr ymgynghoreion yn cytuno bod y Cod yn esbonio'n eglur y gall cleifion yn yr ysbyty gael cysylltiad â theulu a ffrindiau, y gallant gyfathrebu â hwy yn breifat, a phan yn briodol, gysylltu â'r bobl a ddewisant trwy wahanol ffyrdd, heb amharu ar breifatrwydd, diogelwch ac urddas eu hunain ac eraill. Roedd ystyriaeth eraill yn ymwneud ag:

- Argaeledd ffonau talu a'u cost
- Cyfleusterau i blant
- Materion Diogelu ac Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed o ran ymwelwyr

Ymateb y Llywodraeth

O ran diogelu ac Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed – mae'r Cod yn datgan y gall cleifion, yn ogystal â hwyluso ymweliadau, yn yr un modd, wrthod cyfarfod ag unrhyw ymwelydd y maent o'r farn nad oes croeso iddo ac mae'n rhaid rhoi ystyriaeth briodol i'r camau sy'n angenrheidiol i amddiffyn oedolion agored i niwed.

Er nad yw'r Cod yn gallu pennu sut y mae byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen i fodloni gofynion y Ddeddf a'r Cod hwn;

mae dwy adran ychwanegol wedi'u cynnwys yn y Cod i gefnogi'r gwaith o fonitro ei ofynion ac anghenion hyfforddiant staff.

Cwestiwn 9

A yw'r Cod, fel y'i drafftwyd, yn esbonio'n eglur y dylai staff dderbyn yr hyfforddiant perthnasol i gyflawni eu swyddogaethau?

O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn (34 = 66.6%)

	Ydy	Yn rhannol	Nac ydy
Nifer	19	11	4
Canran	55.9%	32.4%	11.7%



■ Yes ■ Partly ■ No

Crynodeb

Er bod mwyafrif yr ymgylgoreion o'r farn bod y Cod yn esbonio'n eglur y dylai staff dderbyn yr hyfforddiant perthnasol i gyflawni eu swyddogaethau, mynegodd llawer bryder am yr hyfforddiant sydd ar gael, a'r nifer sy'n manteisio arno, ar bob lefel o fewn sefydliadau. Roedd y sylwadau'n cynnwys:

- bydd yn bwysig monitro mai dyma sy'n digwydd mewn gwirionedd. Bydd angen i gosbau fod yn gysylltiedig â diffyg cydymffuriad. Gall fod yn anodd cael staff i gyflawni rhai mathau o hyfforddiant, e.e. ceir dealltwriaeth wael o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol ymhlith staff â chyswllt uniongyrchol â chleifion, hyd yn oed ar ôl yr holl flynyddoedd sydd wedi mynd heibio.
- nid yw'r Cod, fel y'i drafftwyd, yn cynnwys pennod benodol o ran bod staff yn meddu ar hyfforddiant perthnasol i gyflawni eu swyddogaethau.
- mae angen datganiad ar lefelau arfaethedig o hyfforddiant.
- ceir cyfeiriadau hwnt ac yma at y gofyniad am hyfforddiant staff yn y Cod fel y rhestrir uchod. Fodd bynnag, mae'n methu â nodi pwysigrwydd hyfforddiant fel ffactor allweddol o ran sicrhau bod staff yn gymwys i weithredu'n unol â'r Cod. Mae lefel gwybodaeth a sgiliau staff yn hanfodol i sicrhau bod y Cod yn cael ei weithredu'n effeithiol a bod cleifion yn derbyn gwasanaethau arfer gorau, felly mae angen neilltuo mwy o bwysigrwydd i'r hyfforddiant a ddarperir ym mhob agwedd ar y Cod, o safbwynt sgiliau clinigol a gwybodaeth ddeddfwriaethol.

Ymateb y Llywodraeth

Er nad yw'r Cod yn gallu pennu sut y mae byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen i fodloni gofynion y Ddeddf a'r Cod, datblygwyd adran ychwanegol yn canolbwyntio ar hyfforddiant.

Mae Atodiad 1 yn crynhoi materion hyfforddiant y dylai darparwyr gwasanaeth eu hystyried er mwyn sicrhau cydymffurfiaid â fframweithiau cyfreithiol presennol ac, yn benodol, gweithrediad Deddf 1983 a'r Cod.

Mae'r meysydd yn enghreifftiol ac nid ydynt yn drwyadl, ac nid yw argymhellion ar fath na lefel yr hyfforddiant wedi eu diffinio. Argymhellir yn hytrach y dylid rhoi sylw dyledus i gynnwys, a bod y canlyniadau dysgu a ragwelir yn cael eu hesbonio'n fanwl. Dylai unrhyw strategaeth sefydliadol a ddatblygir i roi hyfforddiant cyson ar waith werthuso effaith yr hyfforddiant. Dylai'r strategaeth hyfforddiant sicrhau hefyd fod arfer gorau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn sail i'r holl ddysgu.

Meysydd ar gyfer hyfforddiant sy'n deillio o'r Cod:

- elfennau craidd y dylai'r holl ddarparwyr a chomisiynwyr gwasanaethau eu hystyried yn rhan o'u strategaethau hyfforddiant
- hyfforddiant ar grwpiau cleifion penodol
- dysgu ar gyfer swyddogaethau penodol
- hyfforddiant ehangach i reolwyr a chomisiynwyr.

Cwestiwn 10

A yw'r Cod, fel y'i drafftwyd, yn esbonio'n eglur y dylid galluogi cleifion, cyn belled ag y bo'n ymarferol, i gyfrannu'n llawn at eu cynllun gofal a thriniaeth, a gwneud cymaint o benderfyniadau â phosibl drostynt eu hunain?

O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn (34 = 66.6%)

	Ydy	Yn rhannol	Nac ydy
Nifer	27	7	0
Canran	79.4%	20.6%	0%



■ Yes ■ Partly ■ No

Crynodeb

Roedd mwyafrif yr ymgynghoreion o'r farn bod y Cod yn esbonio'n eglur y dylid galluogi cleifion, cyn belled ag y bo'n ymarferol, i gyfrannu'n llawn at eu cynllun gofal a thriniaeth, a gwneud cymaint o benderfyniadau â phosibl drostynt eu hunain. Dywedodd rhai y dylai fod mwy o bwyslais ar ofynion y Mesur.

Ymateb y Llywodraeth

Diwygiwyd y Cod i gryfhau a phwysleisio gofynion y Mesur ymhellach.

Cwestiwn 11

A yw'r Cod, fel y'i drafftwyd, yn esbonio'n eglur y dylid cynnwys cleifion nad oes ganddynt y galluedd i wneud penderfyniadau penodol cymaint â phosibl yn eu gofal a'u triniaeth?

O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn (33 = 64.7%)

	Ydy	Yn rhannol	Nac ydy
Nifer	26	7	0
Canran	78.8%	21.2%	0%



■ Yes ■ Partly ■ No

Crynodeb

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno bod y Cod yn esbonio'n eglur y dylid cynnwys cleifion nad oes ganddynt y galluedd i wneud penderfyniadau penodol cymaint â phosibl yn eu gofal a'u triniaeth. Cydnabuwyd yr angen i staff gael eu hyfforddi'n briodol, a'r gyfraith achosion sy'n newid yn y maes hwn.

Ymateb y Llywodraeth

Nid yw'r Cod wedi ceisio darparu canllaw ar weithrediad y Ddeddf Galluedd Meddyliol neu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Fodd bynnag, mae wedi amlygu'r materion y bydd staff yn dymuno bod yn ymwybodol ohonynt ac mae hyn yn cynnwys cyfraith achosion sy'n newid.

Cwestiwn 12

A yw'r Cod, fel y'i drafftwyd, yn esbonio'n eglur, pan fydd penderfyniadau yn y cynllun gofal a thriniaeth yn groes i ddymuniadau'r claf neu eraill, bod y rhesymau'n cael eu hesbonio iddynt a'u cofnodi?

O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn (31 = 60.8%)

	Ydy	Yn rhannol	Nac ydy
Nifer	27	4	0
Canran	87.1%	12.9%	0%



■ Yes ■ Partly ■ No

Crynodeb

Roedd mwyafrif yr ymgynghoreion yn cytuno bod y Cod yn esbonio'n eglur, pan fydd penderfyniadau yn y cynllun gofal a thriniaeth yn groes i ddymuniadau'r claf neu eraill, bod y rhesymau'n cael eu hesbonio iddynt a'u cofnodi. Nid oedd unrhyw awgrymiadau ar gyfer diwygiadau.

Cwestiwn 13

A yw'r Cod, fel y'i drafftwyd, yn esbonio'n eglur y dylid hysbysu cleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr am eu hawliau a bod gan gleifion fynediad at Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol?

O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn (33 = 64.7%)

	Ydy	Yn rhannol	Nac ydy
Nifer	28	5	0
Canran	84.8%	15.2%	0%



■ Yes ■ Partly ■ No

Crynodeb

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno bod y Cod yn esbonio'n eglur y dylid hysbysu cleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr am eu hawliau a bod gan gleifion fynediad at Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol. Dywedodd eraill:

- rydym o'r farn bod angen canllaw arall i'r Byrddau Iechyd Lleol ddatblygu sicrwydd bod cleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn cael eu hysbysu am eu hawliau i fynediad at Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol. Mae angen sicrwydd o'r fath, nid yn unig i sicrhau bod cleifion yn cael eu hysbysu am eu hawliau ac am fynediad at Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol, ond eu bod yn cael eu hysbysu ar adeg pan fyddant yn gallu cofio gwybodaeth a bod ganddynt y galluedd i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth o'r fath. Dylai byrddau iechyd lleol (ac awdurdodau rheoli) allu dangos pryd y mae cleifion wedi cael eu hysbysu am eu hawliau a hefyd eu bod wedi gwneud hynny mewn ffordd sy'n dangos urddas a pharch.
- er bod gwybodaeth am Eiriolwyr Iechyd Meddwl Annibynnol yn bresennol, mae'r cam gwirioneddol o hysbysu cleifion am eu hawliau braidd yn gudd ac nid yw'n drylwyr o gwbl. Nid yw'r Cod yn dweud yn benodol sut y dylid hysbysu'r claf am ei hawliau a phwy ddylai wneud hynny. Nid yw'n nodi chwaith a yw hyn yn cyfeirio at hawliau o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, neu hawliau'n gyffredinol. Teg dweud nad yw llawer o ddefnyddwyr gwasanaethau yn gwybod beth yw eu hawliau cyffredinol.

Ymateb y Llywodraeth

Ceir pennod benodol yn y Cod sy'n nodi swyddogaeth yr Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol, y ddyletswydd i sicrhau bod gwasanaethau Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol ar gael ac yn disgrifio pwy ddylai hysbysu cleifion am eu hawl i Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol.

Mae hefyd yn egwyddor arweiniol:


Mae'n **rhaidd** i gleifion gael eu hysbysu am y gefnogaeth y gall eiriolwr iechyd meddwl annibynnol neu eiriolwr galluedd meddyliol annibynnol, pan yn berthnasol, ei darparu, ac mae'n rhaid hysbysu eu teuluoedd a'u gofalwyr fel rheol.

Cwestiwn 14

A yw'r Cod, fel y'i drafftwyd, yn esbonio'n eglur sut y bydd cleifion, eu teuluoedd, eu gofalwyr ac eraill yn cael eu cadw mor ddiogel â phosibl?

O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn (34 = 66.6%)

	Ydy	Yn rhannol	Nac ydy
Nifer	28	5	1
Canran	82.3%	14.7%	2.9%



■ Yes ■ Partly ■ No

Crynodeb

Roedd mwyafrif yr ymgynghoreion o'r farn bod y Cod yn esbonio'n eglur sut y bydd cleifion, eu teuluoedd, eu gofalwyr ac eraill yn cael eu cadw mor ddiogel â phosibl. Dyma'r awgrymiadau eraill i'w cynnwys yn y Cod:

- cyfeiriad at strategaethau PREVENT
- eglurder o ran pwysigrwydd dulliau asesu risg dibynadwy ac asesiadau risg cadarn

Ymateb y Llywodraeth

Mae'r Cod wedi'i ddiwygio i gynnwys cyfeiriad at PREVENT a phwysigrwydd asesiadau risg sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Cwestiwn 15

A yw'r Cod, fel y'i drafftwyd, yn esbonio'n eglur sut y bydd pobl mewn argyfwng iechyd meddwl, mewn mannau cyhoeddus, yn cael eu cynorthwyo a hefyd yn cael eu cadw'n ddiogel yn y man diogel mwyaf priodol am y cyfnod lleiaf o amser sydd ei angen?

O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn (33 = 64.7%)

	Ydy	Yn rhannol	Nac ydy
Nifer	19	13	1
Canran	57.6%	39.4%	3.0%



■ Yes ■ Partly ■ No

Er bod mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno bod y Cod yn esbonio'n eglur sut y bydd pobl mewn argyfwng iechyd meddwl, mewn mannau cyhoeddus, yn cael eu cynorthwyo a hefyd yn cael eu cadw'n ddiogel yn y man diogel mwyaf priodol am y cyfnod lleiaf o amser sydd ei angen, roedd nifer sylweddol o sylwadau ac awgrymiadau, gan gynnwys.

- yn dal i gael eu cadw'n llawer rhy hir gan yr heddlu. Angen ymateb cynt gan y GIG
- dylid amlinellu polisiâu lleol sy'n uwchgyfeirio ac yn adolygu penderfyniadau yn y Cod Ymarfer
- eglurhad o ba bryd na ddylai unigolion sydd wedi meddwi gael eu gwahardd o fan iechyd diogel
- angen mwy o eglurder o ran prosesau gwneud penderfyniadau a chofnodi'r rhain a chynnwys proses uwchgyfeirio a bennwyd
- oni bai bod yr amgylchiadau'n gwbl eithriadol, ni ddylai plant a phobl ifanc fyth gael eu cadw o dan adran 135 neu 136 mewn gorsaf heddlu. Pryd bynnag y bydd plentyn yn cael ei gadw mewn gorsaf heddlu, mewn amgylchiadau eithriadol neu fel arall, mae'n rhaid i bartneriaid ymrwymo i adolygiad o fewn 7 diwrnod
- roedd y canllaw'n cynnig cyfyngiad o 3 awr, ystyrir bod hyn yn dderbyniol gan fod asesiad cynnar yn hanfodol. Fodd bynnag, mae gennym bryderon parhaus ynghylch yr amrywiad daearyddol o ran y gwasanaethau sydd ar gael ac arferion ledled Cymru
- argymhellion y dylai'r gyfraith o ran adran 136 a 135 gael ei newid
- mae'r Cod drafft yn cynnig bod asesiadau o bobl a gedwir o dan adran 136 yn digwydd o fewn 3 awr, ond dylid ystyried amser ymateb o 4 awr ar gyfer asesiad fel sy'n gyson â'r amseroedd ymateb i atgyfeiriadau brys a amlinellir yn y canllaw polisi cyfredol.

Ymateb y Llywodraeth

Diwygiwyd y Cod i adlewyrchu'r sylwadau a wnaed gan nifer o ymatebwyr. Yn benodol, eglurhad ynghylch materion yn ymwneud â'r prosesau uwchgyfeirio a digwyddiadau difrifol ac anffafriol.

Mae'r amser targed i bobl gael eu gweld wedi'i newid o 3 awr i 4 awr er mwyn alinio'r amser ymateb â chanllawiau brys eraill, er enghraifft asesiad gan dimau argyfwng a thriniaeth yn y cartref.

Mae'r Cod hefyd yn cyfeirio at y Concordat Gofal Iechyd Meddwl mewn Argyfwng sydd wedi ei gyhoeddi erbyn hyn, a bydd yr ymrwymïadau ar y cyd a wnaed hefyd yn cefnogi gweithrediad y Cod.

Cwestiwn 16

A yw'r Cod, fel y'i drafftwyd, yn esbonio'n eglur y bydd cleifion, ac os yw'n briodol, eu teuluoedd a'u gofalwyr, yn derbyn yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt i sicrhau eu bod yn deall pam y maen nhw yn yr ysbyty a'r driniaeth a gynigir iddynt neu y mae'n rhaid iddynt ei chael?

O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn (32 = 62.7%)



■ Yes ■ Partly ■ No

	Ydy	Yn rhannol	Nac ydy
Nifer	29	2	1
Canran	90.6%	6.2%	3.1%

Crynodeb

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o'r farn bod y Cod yn esbonio'n eglur y bydd cleifion, ac os yw'n briodol, eu teuluoedd a'u gofalwyr, yn derbyn yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt i sicrhau eu bod yn deall pam y maen nhw yn yr ysbyty a'r driniaeth a gynigir iddynt neu y mae'n rhaid iddynt ei chael. Cafwyd awgrym y dylid cynnwys rhagor o fanylion am natur yr wybodaeth i'w darparu.

Ymateb y Llywodraeth

Er nad yw'r Cod yn gallu pennu sut y mae byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen i fodloni gofynion y Ddeddf a'r Cod, mae gwybodaeth am yr hyn i'w ddisgwyl yn yr ysbyty yn cael ei pharatoi a bydd ar gael yn rhwydd mewn nifer o fformatau pan fydd y Cod yn dod i fodolaeth.

Cwestiwn 17

A yw'r Cod, fel y'i drafftwyd, yn esbonio'n eglur y bydd cyn lleied o gyfyngiadau â phosibl ar ryddid claf ac y bydd y broses o'i ryddhau yn cael ei hwyluso cyn gynted â phosibl?

O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn (34 = 66.6%)

	Ydy	Yn rhannol	Nac ydy
Nifer	27	7	0
Canran	79.4%	20.6%	0%



■ Yes ■ Partly ■ No

Crynodeb

Roedd mwyafrif yr ymgynghoreion yn cytuno bod y Cod yn esbonio'n eglur y bydd cyn lleied o gyfyngiadau â phosibl ar ryddid claf ac y bydd y broses o'i ryddhau yn cael ei hwyluso cyn gynted â phosibl. Awgrymwyd y dylai fod mwy o bwyslais ar bwysigrwydd cynllunio ar gyfer rhyddhau cyn gynted â phosibl a chysylltiadau eglur â Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.

Ymateb y Llywodraeth

Diwygiwyd y Cod i adlewyrchu pwysigrwydd cynllunio'r broses ryddhau ar y cam cynharaf posibl a chyflwynwyd adran newydd o ran y trefniadau rhyddhau penodol o dan y Mesur.

Cwestiwn 18

Hoffai Llywodraeth Cymru wybod a allai'r diwygiad i'r Cod Ymarfer gael effaith gadarnhaol neu andwyol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Dyma'r nodweddion gwarchodedig: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Byddem hefyd yn croesawu eich sylwadau ar ba un a yw'r Cod Ymarfer yn adlewyrchu'n briodol ofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

Crynodeb

Ymatebodd 21 o bobl (41.1%) i'r cwestiwn hwn. Ac o'r rhain, roedd 90% o'r farn y byddai'r Cod yn cael effaith gadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig neu ddim effaith negyddol o leiaf. Dyma'r awgrymiadau ar gyfer gwella:

- mae'n rhestru'r nodweddion gwarchodedig fel pe bai un nodwedd warchodedig yn unig yn berthnasol i bob unigolyn. Rydym yn argymhell ychwanegu'r geiriau 'neu unrhyw gyfuniad ohonynt' i gydnabod yn eglur yr angen i gymryd holl nodweddion gwarchodedig unigolyn i ystyriaeth
- 1.10 i nodi "Os bydd iaith y claf yn un ac eithrio Cymraeg neu Saesneg, dylid cynnal asesiadau a'r holl gyfathrebiadau â chleifion gan ddefnyddio cyfieithydd ar y pryd priodol, a fydd yn rhoi sylw i faterion yn ymwneud ag iaith a dehongliad diwylliannol. Dylai'r holl wybodaeth a ddarperir i gleifion, teuluoedd a gofalmwr fod yn eu hiaith gyntaf pan fo hynny'n bosibl. Dylid darparu triniaeth trwy gyfrwng iaith gyntaf neu gan ddefnyddio cyfieithydd ar y pryd pan fo hynny'n bosibl. Mae hyn yn cynnwys y defnydd o iaith Arwyddion Prydain."
- "Ni ddylid ystyried bod gan unrhyw un anhwylder meddyliol dim ond oherwydd eu credoau gwleidyddol, crefyddol neu ddiwylliannol, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hunaniaeth o ran rhywedd, eu gwerthoedd neu eu safbwyntiau, neu unrhyw nodweddion gwarchodedig neu bersonol eraill."
- "Ni ddylid defnyddio Eiriolwyr Iechyd Meddwl Annibynnol fel cyfieithwyr, cyfieithwyr ar y pryd neu gynorthwyr cyfathrebu."
- Cyfeiriad mwy eglur at Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg ym meysydd Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol (Mwy Na Geiriau)
- dylid rhoi mwy o amlygrwydd i'r CCUHP drwy'r ddogfen gyfan

Ymateb y Llywodraeth

Mae'r Cod wedi'i ddiwygio i adlewyrchu'r sylwadau a wnaed gan nifer o ymatebwyr. Yn benodol, eglurhad ar faterion yn ymwneud â nodweddion gwarchodedig ac anghenion cyfathrebu ac iaith. Ni ychwanegwyd cyfeiriadau ychwanegol at y Gymraeg at brif ran y testun oherwydd:

Mae egwyddor arweiniol 1.9 yn nodi:

Mae'n rhaid i siaradwyr Cymraeg gael yr opsiwn o gael asesiad, triniaeth a bod gwybodaeth yn cael ei darparu iddynt yn unol â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015. Mae'n rhaid i gomisiynwyr a darparwyr gwasanaethau weithredu'n unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Cwestiwn 19

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y gofod hwn i'w hysbysu, neu nodwch sylwadau pellach:

Crynodeb

Ymatebodd 30 o bobl (58.8%) i'r cwestiwn hwn. Mae ymatebion manwl ar gael ar gais.

Ymateb y Llywodraeth

Gwnaed diwygiadau i'r Cod i adlewyrchu safbwyntiau ymatebwyr a chaiff materion perthnasol sy'n rhan o gylch gwaith y Cod eu crynhoi isod. Roedd nifer o newidiadau a awgrymwyd yn golygu gwneud newidiadau i'r Ddeddf Iechyd Meddwl ei hun ac ni ellid ymgorffori'r rhain yn y Cod.

Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys cais am ddisgwyliadau mwy rhagnodol a manwl o ran, er enghraifft, lefelau hyfforddiant sy'n ofynnol neu sut y dylai sefydliadau fodloni eu hymrwymadau. Mae adrannau ychwanegol wedi'u cynnwys ar hyfforddiant ar gyfer y Ddeddf a'r Cod yn ogystal â monitro hyfforddiant i gynorthwyo sefydliadau i ddatblygu protocolau a pholisïau lleol a, phan yn briodol, polisïau y cytunwyd arnynt.

Roedd nifer o awgrymiadau yn ymwneud â deddfwriaeth arall hefyd a darparu mwy o gyfarwyddyd clinigol - ein safbwynt ni yw mai Codau Ymarfer a chanllawiau arfer da sy'n esblygu ddylai ymdrin â materion o'r fath.

Gwnaed diwygiadau i'r Cod i:

- adlewyrchu ei statws a phwysigrwydd hyfforddiant i'r rhai y mae'r Cod yn ganllaw statudol iddynt ac i'r rhai y mae'n ganllaw anstatudol iddynt
- ychwanegu'r canlynol at yr egwyddorion arweiniol: 'dylai gofal a thriniaeth annog ymdeimlad o obaith a dyhead pan fo hynny'n bosibl'
- lle y gellid defnyddio 'rhaid' yn hytrach na 'dylid' (yn y diffiniad o'r termau hyn yn y cyflwyniad¹ i'r Cod), mae hyn wedi'i newid
- egluro cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Diogelu Data
- egluro'r diffiniad o anhwylder meddwl a bod y rhai â diagnosis deuol yn cael eu trin yn deg

¹ Gweler xiv y Cod

- ychwanegwyd adran benodol at yr atodiad monitro ar bolisiau hawliau dynol a chydraddoldeb
- egluro cyfrifoldebau Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru ac Eiriolwyr Iechyd Meddwl Annibynnol yn ogystal â'r wybodaeth y dylid ei darparu a chan bwy
- ailysgrifennu'r bennod ar reolwyr ysbytai
- eglurhad o ran Gorchmynion Triniaeth Gymunedol a chyfrifoldebau
- newidiadau'n ymwneud â diogelu rhag colli rhyddid a'r Trefniadau Diogelu
- eglurhad am wybodaeth ar gyfer Meddygon a Benodwyd i Roi Ail Farn
- diwygiadau i'r bennod ar blant, yn enwedig o ran cyfrifoldeb rhieni a galluedd, cymhwysedd a chaniatâd
- newidiadau i adlewyrchu cyfraith achosion gyfredol

Roedd tri chais arall am newidiadau i'r Ddeddf sydd wedi bod yn destun trafodaeth a dadlau pellach. Yn gyntaf, pa un a ddylai fod pennod ar gyfer gofalwyr. Ystyriwyd hyn yn drwyadl a phenderfynwyd ar y cyfan i beidio ag ychwanegu pennod benodol, o ystyried pa mor ganolog yw'r swyddogaeth drwy gydol egwyddorion arweiniol a phrif ran y Cod. Er enghraifft:

- Dylai cleifion, teuluoedd a gofalwyr gael eu parchu, dylid gwrando arnynt a dylid gwerthfawrogi eu barn, ei chofnodi a'i chymryd i ystyriaeth yn gadarnhaol pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud.
- Pan fo'n briodol, dylai cleifion, eu teuluoedd a/neu eu gofalwyr ac unigolion perthnasol eraill gymryd rhan ymarferol yn y gwaith o asesu'r risgiau a berir i iechyd a diogelwch y claf ac eraill. Pryd bynnag y bo'n ymarferol, dylai cleifion gymryd rhan yn y gwaith o lunio a gweithredu cynllun rheoli risg.

Yn ail, mwy o bwyslais ar anghenion pobl fyddar a allai fod yn ddarostyngedig i'r Ddeddf. Dylid cymryd i ystyriaeth anghenion cyfathrebu unigol ac anghenion eraill pawb â nodweddion gwarchodedig bob amser, gan wneud addasiadau rhesymol. Rhagwelir y bydd cynnwys pennod annibynnol ar gydraddoldeb a hawliau dynol yn sicrhau arfer gorau.

Canllaw estynedig ar gynllunio gofal a thriniaeth. Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Rhannau 2 a 3 o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 yn ganllaw statudol ac, fel y cyfryw, dylid cydymffurfio â hwy oni bai bod rhesymau eglur, wedi'u cofnodi, y gellir eu cyfiawnhau pam y mae mynd yn groes i'r Cod hwnnw'n briodol.

Atodiad 1

O'r rhai a atebodd y cwestiynau yn yr ymgynghoriad yn benodol, nodir nifer yr ymatebion fesul math yn y graffiau isod.

Dyma'r allwedd ar gyfer echel x pob graff:

AMHP	Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy
FMOc	Aelod o'r Teulu neu Ofalwr
L	Cyfreithiol
MOP	Aelod o'r Cyhoedd
NHSS	Staff y GIG
O	Arall
POFP	Claf neu Gyn-glaf
PB	Corff Proffesiynol
SW	Gweithiwr Cymdeithasol
TS	Trydydd Sector

Key to other text in graphs below:

Question X responses by type – Ymatebion i Gwestiwn X fesul math


No – Nac ydy

Partly – Yn rhannol

Yes - Ydy


Cwestiwn 1

	Ydy	Yn rhannol	Nac ydy	Ni Atebwyd
Nifer	29	5	0	17
Canran	56.9%	9.8%	0%	33.3%




Cwestiwn 2

	Ydy	Yn rhannol	Nac ydy	Ni Atebwyd
Nifer	24	9	1	17
Canran	47.1%	17.6%	2%	33.3%




Cwestiwn 3

	Ydy	Yn rhannol	Nac ydy	Ni Atebwyd
Nifer	23	11	0	17
Canran	45.1%	21.6%	0%	33.3%




Cwestiwn 4

	Ydy	Yn rhannol	Nac ydy	Ni Atebwyd
Nifer	24	8	2	17
Canran	47.1%	15.7%	3.9%	33.3%




Cwestiwn 5

	Ydy	Yn rhannol	Nac ydy	Ni Atebwyd
Nifer	26	6	0	19
Canran	51%	11.7%	0%	37.3%




Cwestiwn 6

	Ydy	Yn rhannol	Nac ydy	Ni Atebwyd
Nifer	28	4	0	19
Canran	54.9%	7.8%	0%	37.3%




Cwestiwn 7

	Ydy	Yn rhannol	Nac ydy	Ni Atebwyd
Nifer	30	3	1	17
Canran	58.8%	5.9%	2%	33.3%




Cwestiwn 8

	Ydy	Yn rhannol	Nac ydy	Ni Atebwyd
Nifer	27	5	0	19
Canran	52.9%	9.8%	0%	37.3%




Cwestiwn 9

	Ydy	Yn rhannol	Nac ydy	Ni Atebwyd
Nifer	19	11	4	17
Canran	37.3%	21.6%	7.8%	33.3%




Cwestiwn 10

	Ydy	Yn rhannol	Nac ydy	Ni Atebwyd
Nifer	27	7	0	17
Canran	52.9%	13.7%	0%	33.3%




Cwestiwn 11

	Ydy	Yn rhannol	Nac ydy	Ni Atebwyd
Nifer	26	7	0	18
Canran	51%	13.7%	0%	35.3%




Cwestiwn 12

	Ydy	Yn rhannol	Nac ydy	Ni Atebwyd
Nifer	27	4	0	20
Canran	52.9%	7.8%	0%	39.2%




Cwestiwn 13

	Ydy	Yn rhannol	Nac ydy	Ni Atebwyd
Nifer	28	5	0	18
Canran	54.9%	9.8%	0%	35.3%




Cwestiwn 14

	Ydy	Yn rhannol	Nac ydy	Ni Atebwyd
Nifer	28	5	1	17
Canran	54.9%	9.8%	2%	33.3%




Cwestiwn 15

	Ydy	Yn rhannol	Nac ydy	Ni Atebwyd
Nifer	19	13	1	18
Canran	37.2%	25.5%	2%	35.3%



Cwestiwn 16

	Ydy	Yn rhannol	Nac ydy	Ni Atebwyd
Nifer	29	2	1	19
Canran	56.9%	3.9%	2%	37.2%



Cwestiwn 17

	Ydy	Yn rhannol	Nac ydy	Ni Atebwyd
Nifer	27	7	0	17
Canran	52.9%	13.7%	0%	33.3%

